
# Bagloriaeth Cymru Uwch

**Mae Bagloriaeth Cymru yn seiliedig ar:**
**- Dystysgrif Her Sgiliau.**
**- Cymwysterau Ategol.**




***Dylai pob dysgwr gwblhau o leiaf un Her yn unigol ac o leiaf un Her mewn tîm.***

## Tystysgrif yr her sgiliau

**Her cymunedol:** 10 awr o ddysgu ac addysgu, uchafswm o 40 awr o asesiad dan reolaeth sy'n cynnwys 30 awr o gyfranogiad dros 4 wythnos o leiaf.
TASGAU: 1) Cynnig ar gyfer gweithgaredd cymunedol 2) Datganiad cadarnhad 3) Cyflwyniad myfyrdod personol.

**Her dinasyddiaeth fyd-eang:** 50 awr o ddysgu ac addysgu, 20 awr o asesiad dan reolaeth.
TASGAU: 1) Safbwynt personol 2) Cynhadledd dewisiadau byd-eang 3) Myfyrdod personol

**Her menter a chyflogadwyedd:** 70 awr o ddysgu ac addysgu, 50 awr o asesiad dan reolaeth.
TASGAU: 1) Hunan bortread 2) Cynnig a chyflwyniad ar ddatblygiad arloesol 3) Cynllun cyrchfan 4) Cyflwyniad myfyrdod personol.

*Mae'n bwysig cofrestru pob disgybl ar y system e-portffolio fel eu bod yn gallu llwytho i fyny eu gwaith.*

**Prosiect unigol:** 40 awr o ddysgu ac addysgu, 80 awr i gwblhau'r prosiect.
TASG: Prosiect unigol i'w gyflwyno naill ai fel adroddiad ysgrifenedig rhwng 3,000 a 5,000 o eiriau o hyd, neu arteffact/cynnyrch wedi'i ategu gan dystiolaeth ysgrifenedig rhwng 1,500 a 3,000 o eiriau. Anogir dysgwyr i archwilio testun y mae'r pwyslais ynddo ar ddyheadau ar gyfer y dyfodol o ran addysg neu waith.

Mae'r Cymwysterau Ategol yn cynnwys dau gymhwyster TGAU gorfodol mewn Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith ynghyd â Mathemateg – Rhifedd unai cyn neu yn ystod y Fagloriaeth Uwch. Tra'n astudio Bagloriaeth Cymru Uwch rhaid ennill dwy gymhwyster safon uwch ar raddau A*- E neu gymwysterau cyfwerth er mwyn cyflawni gofynion Bagloriaeth Cymru Uwch.

**Ffocws Bagloriaeth Cymru Uwch yw darparu cyfleoedd i ddisgyblion atgyfnerthu a meithrin sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd.**

Cynllunio a Threfnu    Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau    Effeithiolrwydd Personol    Llythrennedd Digidol

Rhifedd    Creadigedd ac Arloesi    Llythrennedd

Mae cyflawni cydrannau'n seiliedig ar allu dysgwr i fodloni'r deilliannau dysgu. Dyfernir gradd grynodol ar gyfer pob cydran:

- **Llwyddiant Lefel 3;**
- **Teilyngdod Lefel 3;**
- **Rhagoriaeth Lefel 3.**

Ysgrifennwyd y bandiau perfformiad er mwyn galluogi'r dysgwyr i ddangos eu gallu i fodloni'r deilliant dysgu. Mae tri band perfformiad yn gysylltiedig â phob cydran, gydag amrediad o dri phwynt yn cael eu dyrannu i bob un. Dylid dyrannu 0 marciau lle nad oes tystiolaeth neu'r gwaith ddim yn haeddu credyd.

| **Band Perfformiad** | Band 1 | Band 2 | Band 3 |
|---|---|---|---|
| **Pwyntiau** | 1 - 3 | 4 - 6 | 7 - 9 |

Bydd aseswyr yn dyrannu sgôr ar gyfer pob deilliant dysgu, ac yn coladu'r pwyntiau ar draws y gydran gyfan er mwyn darparu cyfanswm y sgôr. Caiff y radd grynodol ar gyfer y gydran ei chyfrifo o gyfanswm y sgôr.

## Mae'r Dystysgrif Sgiliau Uwch werth 1 lefel A (A*-E) i ddisgyblion.

| Cyflwyno Cofrestriadau | Ionawr 2016 | Mehefin 2016 | Ionawr 2017 | Mehefin 2017 |
|---|---|---|---|---|
| **Her Menter a Chyflogadwyedd** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Her Dinasyddiaeth Fyd-eang** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Her y Gymuned** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Project Unigol** | X | X | ✓ | ✓ |
| **Cyfnewid** | X | X | X | ✓ |